Gwelliannau i'r A40 o Landdewi Felffre i Groesffordd Maencoch

Medi 2021

GRIFFITHS
civil engineering and construction

Cyflwyniad

Mae Alun Griffiths (Contractors) Ltd wedi cael eu penodi fel y prif gontractwr gan Lywodraeth Cymru i ddarparu'r Gwelliannau i'r A40 o Landdewi Felffre i Groesffordd Maencoch.

Wedi'i sefydlu ym 1968, Griffiths yw un o'r contractwyr rheilffordd a pheirianneg sifil blaenllaw sy'n gweithio yng Nghymru, siroedd y gororau a gorllewin Lloegr.

Gyfochr â dylunwyr y prosiect a Jacobs, ymgynghorwyr amgylcheddol, a gweddill tîm y prosiect, rydym yn edrych ymlaen at ddarparu'r prosiect hwn.

Amcanion y Cynllun

- Gwella gwytnwch rhwydwaith a hygyrchedd ar hyd y coridor trafnidiaeth o'r gorllewin i'r dwyrain at fannau gwaith, cymunedol a thwristiaeth.
- Gwella ffyniant a darparu gwell mynediad i dref sirol Hwlffordd, Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau a phorthladdoedd Gorllewin Cymru yn Abergwaun, Aberdaugleddau a Doc Sir Benfro.
- Lleihau tor-cysylltiad cymunedol a darparu buddion iechyd a hynawsedd.
- Gwella diogelwch (a diogelwch gweledig) Cyffordd Croesffordd Maencoch a lleihau nifer y damweiniau a'u difrifoldeb.
- Hyrwyddo teithio llesol drwy feicio, reidio ceffylau a cherdded er mwyn darparu cyfleoedd ar gyfer ffyrdd iach o fyw.
- Darparu cynllun sy'n hyrwyddo cynhwysiant cymunedol ac sy'n integreiddio â rhwydwaith trafnidiaeth lleol, er mwyn cysylltu cymunedau lleol gyda hybiau trafnidiaeth allweddol yn well.
- Darparu prosiect sy'n gynaliadwy mewn Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang, a chymryd camau i leihau neu gael gwared ar wastraff a charbon.
- Rhoi cryn ystyriaeth i effaith trafnidiaeth ar yr amgylchedd a darparu gwelliannau pan fo'n ymarferol.

GRIFFITHS
civil engineering and construction

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Mae Alun Griffiths (Contractwyr) Ltd yn cynnal 2 Arddangosfa Gwybodaeth Gyhoeddus mewn perthynas â'r Gwelliannau'r A40 Llanddewi Efelffre i Groesffordd Maencoch

Mae hwn yn gyfle i gwrdd ag aelodau tîm cyflawni'r prosiect, gweld amserlenni, a gofyn cwestiynau i'r tîm.

Dydd Mawrth 21 Medi 2021
Gwesty Plas Hyfryd, Arberth, SA67 7AB.
11am i 8pm

Dydd Iau 23 Medi 2021
Neuadd Tref Llanddewi Efelffre, SA67 7PA.
11am i 8pm

Yn unol â chyfyngiadau Covid 19 presennol Llywodraeth Cymru, gan fod hwn yn ddigwyddiad cyhoeddus dan do, mae gofyn ichi wisgo gorchudd wyneb (oni bai eich bod wedi eich eithrio). Yn ogystal â hynny, rydym yn gofyn yn garedig ichi gadw eich pellter lle bo modd, a defnyddio'r gel dwylo sydd ar gael.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Swyddog Cyswllt Cyhoeddus y prosiect, Gail Jones ar 0330 041 2182

Cynllun yn ôl rhifau

- 2 gylchfan newydd a 2 gyffordd newydd.
- Priffordd newydd sy'n 6km o hyd.
- 2 bont newydd, 18 ceuffos newydd a 3 estyniad i geuffosydd presennol.
- Cyfleuster a rennir ar gyfer cerdded, beicio a marchogaeth ceffylau sy'n 5.5km o hyd.
- 9 pwll draenio cynaliadwy.
- 14.5km o waith draenio ar y ffordd fawr a gwaith pibellau cysylltiedig.
- 16k o waith ffensio ecolegol.

Y Prosiect



Cynnydd y Prosiect

Yn ystod y misoedd diwethaf, rydym wedi bod yn gwneud cynnydd gydag arolygon ecolegol ac amgylcheddol y prosiect.

Rydym hefyd wedi bod yn gwneud arolygon ar y tir ac archwiliadau safle.

Ar hyn o bryd, rydym yn y broses o osod safle swyddfeydd y prosiect, ac yn cwrdd gyda rhanddeiliaid sydd wedi cael eu heffeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan y prosiect.

O ddechrau mis Hydref 2021, byddwn yn dechrau'r prif waith adeiladu, sy'n cynnwys clirio'r safle a gosod ffensys o amgylch ffiniau'r safle. Yna, byddwn yn dechrau creu gwyriadau ar gyfer unrhyw wasanaethau statudol sy'n cael eu heffeithio gan y cynllun, ac yn adeiladu gwyriadau ffordd dros dro y cytunwyd arnynt fel rhan o ddyluniad y prosiect.

I gynorthwyo diogelwch y cyhoedd sy'n teithio a'n gweithlu, rydym eisiau sefydlu cyfyngiad cyflymder o 30mya ar gefnffordd yr A40 o ddwyrain pentref Llanddewi Felffre i orllewin Croesffordd Maencoch.

Ein horiau gweithio fydd 07:30am tan 17:30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, ond gall yr oriau hyn newid.

Cysylltu â'r Cyhoedd ac Ymgysylltiad Cymunedol

Mae Gail Jones wedi'i phenodi yn Uwch Swyddog Cysylltu â'r Cyhoedd y prosiectau. Gyda'i thîm, bydd Gail yn sicrhau bod rhanddeiliaid, a'r rheiny sy'n cael eu heffeithio gan y prosiect, ynghlwm â'r newyddion diweddaraf ynghylch cynnydd.

Bydd cylchlythyrau rheolaidd am y prosiect yn cael eu cynhyrchu, a bydd y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y prosiect ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru **www.gov.wales/a40-llanddewi-velfrey-redstone-cross-improvements** a gwefan gymunedol Griffiths **https://community.alungriffiths.co.uk/**

Bydd tîm y prosiect yn cysylltu ag ysgolion a cholegau i hyrwyddo rolau o fewn y diwydiant a hwyluso ymgysylltiad gyda'r prosiect.

Bydd Cronfa Achosion Da y prosiect yn ceisio cefnogi mentrau cymunedol. Gall grwpiau ac elusennau lleol wneud cais am un ai gymorth ariannol neu lafur drwy e-bostio **A40LVRCEnquiries@alungriffiths.co.uk** gan nodi pa gymorth sydd ei angen, ac os byddant yn llwyddiannus, sut fydd y cymorth yn elwa'r gymuned leol.

Gallwch gysylltu â Gail drwy'r cyfeiriad e-bost uchod, neu drwy ffonio 0330 041 2182

CONSIDERATE CONSTRUCTORS

Registered site
www.ccscheme.org.uk

Rydym wedi cofrestru'r prosiect gyda'r Cynllun Adeiladwyr Ystyriol (CSS). Mae'r holl safleoedd Adeiladu a Pheirianneg Sifil sydd wedi'u cofrestru gyda'r Cynllun yn cael eu monitro gan weithiwr proffesiynol profiadol yn y diwydiant i asesu eu perfformiad yn erbyn Cod Ymarfer Ystyriol pum pwynt. Mae'r Cod Ymarfer Ystyriol yn ymrwymo'r safleoedd hynny sydd wedi cofrestru gyda'r Cynllun i ofalu am edrychiad, parchu'r gymuned, diogelu'r amgylchedd, gofalu am ddiogelwch a gwerthfawrogi eu gweithlu. Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth ynghylch y CCS, ewch i **https://www.ccscheme.org.uk/**

Printed in Wales by Imprint, Newtown 01686 624137